Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymateb i stormydd diweddar

Ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith (Medi 2025)

21/10/2025

Ym mis Medi 2025, cyflwynodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ei adroddiad ar Ymateb Llywodraeth Cymru i Stormydd Diweddar. Mae'r adroddiad yn cynnwys 25 argymhelliad. Dyma ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hynny.

# Cynnwys

**Cyflwyniad** .......... **3**

**Ymateb i'r 25 o argymhellion** .......... **4**

Argymhelliad 1 .......... 4
Argymhelliad 2 .......... 4
Argymhelliad 3 .......... 5
Argymhelliad 4 .......... 6
Argymhelliad 5 .......... 6
Argymhellion 6 a 7 .......... 7
Argymhelliad 8 .......... 7
Argymhelliad 9 .......... 8
Argymhelliad 10 .......... 8
Argymhelliad 11 .......... 9
Argymhellion 12 a 13 .......... 10
Argymhelliad 14 .......... 11
Argymhelliad 15 .......... 11
Argymhelliad 16 .......... 12
Argymhelliad 17 .......... 13
Argymhelliad 18 .......... 14
Argymhelliad 19 .......... 14
Argymhelliad 20 .......... 15
Argymhellion 21 a 22 .......... 16
Argymhelliad 23 .......... 16
Argymhelliad 24 .......... 17
Argymhelliad 25 .......... 18

# Cyflwyniad

Mae rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn flaenoriaeth uchel i'r Llywodraeth hon. Tymor y Senedd hwn, rydym wedi ymrwymo i ariannu amddiffyniad ychwanegol rhag llifogydd ar gyfer 45,000 o gartrefi. Rydym wedi gwneud ein buddsoddiad mwyaf erioed mewn rheoli perygl llifogydd, gyda thros £300 miliwn wedi'i ymrwymo i leihau risgiau i gymunedau ledled Cymru.

Dangosodd tymor y gaeaf 2024-25 unwaith eto, yn wyneb hinsawdd sy'n newid, y byddwn yn profi llifogydd mwy aml a difrifol, lefelau'r môr yn codi a chyfraddau cyflymach o erydu arfordirol. Rhaid i ni fod yn barod ar gyfer digwyddiadau tywydd mwy eithafol yn fwy rheolaidd.

Gwyddom nad oes modd atal pob achos o erydu arfordirol a llifogydd, ond rydym wedi ymrwymo i leihau'r canlyniadau ar gyfer cymunedau ledled Cymru ac i gynyddu gwydnwch y cymunedau hynny.

Daeth stormydd Bert a Darragh ag effeithiau sylweddol ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr y llynedd. Roedd y glawiad o Storm Bert yn fwy na stormydd mis Chwefror 2020 mewn rhai mannau, ond diolch i ymroddiad ein Hawdurdodau Rheoli Risg a'n hymatebwyr cyntaf, effeithiwyd ar lai o gymunedau.

Diolch i aelodau'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith am eu hadroddiad ar Ymateb Llywodraeth Cymru i Stormydd Diweddar. Rydw i wedi nodi fy ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad isod.

# Ymateb i'r 25 o argymhellion

## Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Rhaid i Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod gan CNC fynediad uniongyrchol a pharhaus at y technolegau a'r systemau darogan llifogydd diweddaraf. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod rhaglen gyllido ar gael at y diben hwn, ac er mwyn sicrhau bod Cymru'n gallu dylanwadu ar flaenoriaethau ymchwil a datblygu. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet hefyd sicrhau bod CNC yn gallu cael mynediad at dreialon darogan ensemble a chymryd rhan ynddynt.

Ymateb: Derbyn

Rwy'n cydnabod pwysigrwydd hanfodol cael mynediad at y technolegau darogan llifogydd diweddaraf. Er mwyn cefnogi hyn, rhoddodd Llywodraeth Cymru bron i £6 miliwn i CNC i lansio ei Wasanaeth Gwybodaeth Rhybuddion Llifogydd newydd i Gymru yn 2024. Mae'r prosiect buddsoddiad cyfalaf hanfodol i fusnes hwn wedi galluogi CNC i ddarparu gwasanaeth wedi'i deilwra i anghenion cwsmeriaid yng Nghymru.

Mae CNC yn gweithio mewn cydweithrediad agos â'r Swyddfa Dywydd a'r Ganolfan Darogan Llifogydd i wella data, modelu ac asesiadau darogan. Mae'r rhain yn helpu i lywio paratoadau a chyfathrebiadau cyn, yn ystod ac ar ôl digwyddiadau llifogydd. Mae CNC hefyd wedi adolygu trothwyon effaith ym mhob lleoliad rhybudd ledled Cymru a'u diweddaru mewn rhai mannau i helpu i wella prydlondeb a chywirdeb rhybuddion.

Goblygiadau ariannol: Os yw CNC angen gwelliannau pellach, byddai angen cyflwyno costau i Lywodraeth Cymru i'w hystyried. Rydym yn cefnogi unrhyw gynnig i wella technegau a systemau darogan llifogydd, ond byddai angen deall y costau ymhellach.

## Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod dull systematig yn cael ei gyflwyno ar gyfer ymarferion gwersi a ddysgwyd ar draws asiantaethau yn dilyn digwyddiadau fel stormydd Bert a Darragh.

Ymateb: Derbyn

Yn unol â'n hymrwymiadau o fewn Fframwaith Gwydnwch Cymru, rydym wedi bod yn gweithio gydag Academi Gwydnwch y DU i ddatblygu a gweithredu system rheoli gwersi Cymru gyfan.

Mae'r system rheoli gwersi mewnol yn ein galluogi i nodi gwersi o ymarferion, digwyddiadau ac ymholiadau ac i roi'r prosesau priodol ar waith sy'n sicrhau bod y gwersi'n cael eu gweithredu.

Yn dilyn stormydd 2024, arweiniodd y Dirprwy Brif Weinidog nifer o ôl-drafodaethau i sicrhau ein bod yn gallu cipio'r gwersi o'r ymatebion yn gyflym i gefnogi ein dysgu ar y cyd. Mae'r gwersi a nodwyd yn ystod y broses hon wedi helpu i lywio ein paratoadau ar gyfer tymor y gaeaf 2025-26, gan gynnwys adolygiad CNC i effeithio ar drothwyon sbarduno, a'r gwelliannau pellach sydd wedi'u cynllunio i'r platfform JIGSO i ddarparu gwybodaeth fwy cywir o ansawdd uwch am bobl agored i niwed i ymatebwyr brys.

Bydd dull rheoli gwersi cefnogol parhaus yn ein helpu i ddysgu, addasu ac, yn y pen draw, gwella gwydnwch ar lefel Cymru gyfan.

Goblygiadau ariannol: Dim

## Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai Ysgrifennydd y Cabinet weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod y Fframwaith Rhybuddion Cyffredin yn cael ei weithredu, fel bod yr iaith a ddefnyddir mewn rhybuddion llifogydd yn gyson a bod y cyhoedd a'r sefydliadau ymateb yn ei deall.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda CNC i sicrhau cysondeb ac eglurder wrth gyfathrebu â'r cyhoedd yng Nghymru. Mae CNC yn cymryd rhan weithredol yn y Fframwaith Rhybuddion Cyffredin ac yn cyfrannu at ei gyflawni ynghyd ag Asiantaeth yr Amgylchedd, Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban a'r Swyddfa Dywydd.

Goblygiadau ariannol: Dim

## Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai Ysgrifennydd y Cabinet weithio gyda CNC a phartneriaid perthnasol i gynyddu ymgysylltiad y cyhoedd â rhybuddion llifogydd a rhybuddion tywydd, gan ganolbwyntio'n benodol ar aelwydydd incwm isel ac aelwydydd sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.

**Ymateb**: Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag ymatebwyr statudol, gan gynnwys CNC, a'r trydydd sector i wella gwydnwch cymunedol er mwyn galluogi unigolion, busnesau a chymdeithas sifil i wella eu gallu i ddeall rhybuddion tywydd, paratoi ar eu cyfer ac ymateb iddynt. Bydd gwaith ar y Fframwaith Rhybuddion Cyffredin yn gwneud rhybuddion a chyfathrebiadau yn fwy hygyrch i'r cyhoedd.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth y DU wedi cynnal arolwg cyhoeddus y DU o ganfyddiad, gwydnwch a pharodrwydd risg i helpu i ddeall beth mae pobl yn ei feddwl am wahanol fathau o argyfyngau, a pha gamau y maent wedi'u cymryd i baratoi ar eu cyfer. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn dadansoddi prif ganfyddiadau'r arolwg i helpu i lywio cyfathrebiadau â'r cyhoedd yn y dyfodol ar baratoi ar gyfer argyfyngau.

**Goblygiadau ariannol**: Dim goblygiadau ariannol ychwanegol

## Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai CNC roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am hyrwyddo, cyrhaeddiad ac effaith ei wasanaeth rhybuddion tywydd, gan gynnwys sut y mae llwyddiant yn cael ei fesur a pha gamau sy'n cael eu cymryd i wella cyfraddau cofrestru a hygyrchedd.

**Ymateb**: Derbyn

Mae CNC yn darparu Gwasanaeth Gwybodaeth Rhybuddion Llifogydd Cymru, a bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am hyn yn unol â hynny.

**Goblygiadau ariannol**: Dim

## Argymhellion 6 a 7

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod

Dylai Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod y Fframwaith Ymateb i Lifogydd yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru i adlewyrchu'r gwersi o'r llifogydd sydd wedi digwydd ers 2016.

A

Dylai'r Fframwaith Ymateb i Lifogydd ddiffinio rolau a chyfrifoldebau, gan gynnwys i'r rhai mewn rolau arwain, ar draws pob lefel o lywodraeth ac asiantaethau ymateb, er mwyn gwella dealltwriaeth ac atebolrwydd.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynnal adolygiad o strwythurau llywodraethu gwydnwch Cymru gyfan a chyhoeddodd Fframwaith Gwydnwch Cymru ym mis Mai eleni. Yn y Cynllun Cyflawni cysylltiedig, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i sicrhau bod canllawiau ar gael i ymatebwyr cyntaf, lle bo hynny'n briodol, a'i fod yn destun adolygiad rheolaidd.

Yn unol â hyn, bydd Fframwaith Ymateb i Lifogydd wedi'i ddiweddaru yn cael ei gyhoeddi yng Ngwanwyn 2026.

Goblygiadau ariannol: Dim

## Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cyllid ychwanegol a ddarperir i Fforymau Gwydnwch Lleol i gefnogi gwaith cydgysylltu amlasiantaethol.

Ymateb: Derbyn

Yn ystod 2024-25, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid i Fforymau Gwydnwch Lleol (LRFs) am y tro cyntaf. Cafodd pob un o'r pedwar Fforwm yng Nghymru £30,000 i gefnogi gwaith cynllunio a pharodrwydd am argyfwng, gydag arian yn cael ei ddefnyddio i gefnogi ystod o weithgareddau hyfforddi ac ymarfer.

Gan adeiladu ar lwyddiant dyfarniad cyllid 2024-25, bydd Fforymau yng Nghymru yn cael £50,000 yr un yn ystod 2025-26. Bydd cyllid yn ategu cyfraniadau partneriaid a bydd yn cefnogi Fforymau i barhau i wella eu capasiti a'u galluoedd cydlynu strategol.

Rydym wedi gwneud ymrwymiadau o fewn Fframwaith Gwydnwch Cymru i gyflwyno datganiad blynyddol i'r Senedd ar argyfyngau sifil posibl, risgiau a gwydnwch. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am y darlun risg cyfredol, ein perfformiad o ran gwydnwch, pa mor barod ydyn ni a sut mae cyllid i Fforymau Gwydnwch Lleol wedi'i ddefnyddio.

**Goblygiadau ariannol**: Dim goblygiadau ariannol ychwanegol

## Argymhelliad 9

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai'r Fframwaith Ymateb i Lifogydd nodi protocolau uwchgyfeirio clir ar gyfer Grwpiau Cydlynu Tactegol a Strategol.

**Ymateb**: Derbyn

Mae gan bob Fforwm Gwydnwch Lleol brotocolau uwchgyfeirio wedi'u hymarfer yn dda ar gyfer Grwpiau Cydlynu Tactegol a Strategol sy'n cyd-fynd ag Egwyddorion Rhyngweithredu y Cydwasanaethau Brys (JESIP).

Mae'r protocolau hyn yn rhan o strwythur rheoli aml-asiantaeth ehangach ar gyfer cydlynu eu hymateb ar y cyd yn effeithiol ac yn cynnwys lefel actifadu ymateb, gweithgarwch ymateb ac uwchgyfeirio ymateb. Mae'r wybodaeth hon eisoes yn ymddangos yn y Fframwaith Ymateb i Lifogydd, a bydd swyddogion yn ystyried wrth ei adnewyddu sut y gall ategu canllawiau a phrotocolau eraill sydd eisoes ar waith.

**Goblygiadau ariannol**: Dim

## Argymhelliad 10

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai Ysgrifennydd y Cabinet egluro sut y caiff y prosiect JIGSO ei ddefnyddio a'i effeithiolrwydd, gan gynnwys a allai fod yn ddewis arall dibynadwy i'r systemau Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth presennol, neu ategu'r rhain. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi sut y bydd yn gwella ymwybyddiaeth o'r offeryn ymhlith ymatebwyr brys.

**Ymateb**: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cymhwysiad data arloesol, "JIGSO", i ddarparu gwybodaeth i ymatebwyr brys ar lawr gwlad. Mae'r cymhwysiad, sy'n rhan o MapDataCymru, yn darparu gwasanaeth mapio, gan gynnwys

cyfeiriadau'r rhai sydd wedi ymuno â Chofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth (PSR), a fydd yn cynnwys unigolion agored i niwed. Mae'r system hon eisoes wedi helpu ymatebwyr i gymryd camau i sicrhau diogelwch pobl agored i niwed pan fydd cynlluniau brys wedi'u gweithredu.

Mae JIGSO yn ychwanegu gwerth at y Gofrestr trwy ei chyfuno â data arall megis rhybuddion llifogydd gweithredol i helpu i dargedu unrhyw ymateb posibl i argyfwng.

Mae data'r Gofrestr yn JIGSO yn dod yn uniongyrchol gan gwmnïau cyfleustodau ac yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd. Mae gwaith ar y gweill i gael data'r Gofrestr gan fwy o gwmnïau cyfleustodau i wella'r hyn sydd ar gael yn JIGSO ar hyn o bryd.

Mae JIGSO wedi'i gynllunio i ategu'r trefniadau ymatebwyr presennol a chyda'r adnoddau pwrpasol a ddyrannwyd yn ddiweddar i gefnogi JIGSO, rydym yn gweithio i wella'r gwasanaeth a chodi ymwybyddiaeth gydag ymatebwyr brys.

**Goblygiadau ariannol**: Dim

## Argymhelliad 11

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod Fforymau Gwydnwch Lleol yn datblygu cytundebau ffurfiol, safonol gyda sefydliadau'r trydydd sector, gan sicrhau y gellir defnyddio'r partneriaid hyn yn gyflym ac yn effeithiol yn ystod argyfyngau.

**Ymateb**: Derbyn

Rydym wedi gwneud ymrwymiadau o fewn Cynllun Cyflawni Fframwaith Gwydnwch Cymru i gefnogi mwy o gysondeb rhwng dulliau ar draws strwythurau a gweithgareddau Fforymau Gwydnwch Lleol yng Nghymru. Mae'n cynnwys camau gweithredu penodol gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth ag ymatebwyr statudol a'r sector gwirfoddol a'r trydydd sector i wella gwydnwch cymunedol i alluogi unigolion, busnesau a chymdeithas sifil i wella eu gwydnwch.

Mae pob Fforwm Gwydnwch Lleol yng Nghymru eisoes yn cynnwys is-grwpiau perthnasol sy'n rheoli perthynas â sefydliadau trydydd sector lleol. Mater i bob Fforwm Gwydnwch Lleol yw penderfynu sut mae'r sefydliadau hyn yn cael eu defnyddio yn ystod argyfyngau.

Mae CNC a'i bartneriaid mewn Fforymau yn gweithio gyda nifer o sefydliadau'r trydydd sector i helpu i hyrwyddo gwydnwch llifogydd. Maent yn mynychu digwyddiadau rhwydwaith gwirfoddolwyr llifogydd cymunedol yn rheolaidd, gan

eu bod yn rhan hanfodol o gefnogi ymateb cymunedol i lifogydd, ac adferiad ar ôl llifogydd.

**Goblygiadau ariannol**: Dim

## Argymhellion 12 a 13

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai fod cydnabyddiaeth gryfach o rôl grwpiau cymunedol. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet weithio ochr yn ochr â CNC i ymchwilio i gyfleoedd i ddarparu cyllid cynaliadwy ar gyfer grwpiau gwydnwch cymunedol.

A

Dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi diweddariad i'r Pwyllgor ar y camau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru neu CNC i ymgorffori cyfranogiad cymunedol mewn prosesau cynllunio ar gyfer y gallu i wrthsefyll llifogydd, gan gynnwys drwy fforymau dinasyddion a chynlluniau lleol a gyd-ddyluniwyd.

**Ymateb**: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Awdurdodau Rheoli Risg (RMAs) weithio ar y cyd â chymunedau wrth ddatblygu cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd. Mae'r dull hwn wedi'i nodi yn ein Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (FCERM) a'n canllawiau achos busnes cysylltiedig.

Defnyddir y canllawiau achos busnes wrth ddatblygu pob cynllun FCERM newydd yng Nghymru. Mae egwyddorion a ffyrdd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'u hymwreiddio trwy'r canllawiau, sy'n annog ffyrdd cydweithredol o weithio trwy gydol y broses ddatblygu.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod lle i wella bob amser a dylai cymunedau deimlo eu bod yn cael eu gweld a'u clywed. Rydym yn cydnabod y rôl y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ei chwarae wrth ymwreiddio cyfranogiad cymunedol mewn rheoli perygl llifogydd yng Nghymru.

O fewn y strwythurau llywodraethu argyfyngau sifil posibl cenedlaethol syml, mae rôl Fforwm Gwydnwch Cymru wedi'i chryfhau i sicrhau ei fod yn gallu darparu'r arweinyddiaeth strategol a'r her angenrheidiol i'n partneriaid ar draws y gymuned ymatebwyr a'r sector gwirfoddol a'r trydydd sector ar gyfer gwella rheoli risg a pharodrwydd ledled Cymru.

Mae aelodaeth Fforwm Gwydnwch Cymru a Phartneriaeth Gwydnwch Cymru wedi'i diwygio i gynnwys cynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol a'r trydydd sector. Mae hyn yn adlewyrchu rôl allweddol y sector gwirfoddol a'r trydydd sector

mewn gweithgarwch gwydnwch ledled Cymru ac yn darparu cysylltiadau uniongyrchol â gweithgarwch gwydnwch ar yr haenau strategol a chydlynu.

Rydw i hefyd yn falch iawn o gadarnhau bod cyllid refeniw ychwanegol ar gael i gefnogi'r Fforwm Llifogydd Cenedlaethol yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Fforwm Llifogydd Cenedlaethol i archwilio sut y gellir gweithredu ei wasanaethau ar sail ehangach ledled y wlad. Gall y Fforwm Llifogydd Cenedlaethol helpu cymunedau i ddrafftio cynlluniau llifogydd, yn ogystal â chynnig cyngor a chymorth ehangach, ac rwy'n deall bod cael y cymorth hwn wedi bod yn hynod werthfawr i gymunedau sydd eisoes yn ei gael.

**Goblygiadau ariannol**: Dim goblygiadau ariannol ychwanegol

## Argymhelliad 14

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai Ysgrifennydd y Cabinet adolygu pa mor ddigonol yw’r cyllid brys presennol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i aelwydydd yr effeithir arnynt gan lifogydd, er mwyn sicrhau bod cymorth ariannol yn adlewyrchu’n well y costau sy’n deillio o ddigwyddiadau tywydd garw.

**Ymateb**: Gwrthod

Mae'r Cynllun Cymorth Ariannol Brys yn gynllun refeniw hyblyg sydd wedi'i gynllunio i ymateb i ddigwyddiadau penodol a all gael effeithiau gwahanol iawn mewn gwahanol ardaloedd ac a all fod yn ddigwyddiadau Cymru gyfan neu leol. Bwriad y cymorth penodol i aelwydydd unigol yw cynnig cymorth cychwynnol gyda chostau uniongyrchol, ac nid yw'n cymryd lle yswiriant. Mae'n rhan ddewisol o'r cynllun y mae Gweinidogion wedi'i ystyried dros y blynyddoedd diwethaf pan fydd cymunedau cyfan yn cael eu heffeithio'n sylweddol, a gwydnwch a chymorth cymunedol yn lleihau.

**Goblygiadau ariannol**: Amherthnasol

## Argymhelliad 15

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai Ysgrifennydd y Cabinet gyflwyno cyllid grant i alluogi cartrefi a busnesau unigol i roi mesurau gwydnwch ataliol ar waith, fel llifddorau.

**Ymateb**: Gwrthod

Mae mesurau Gwydnwch Llifogydd Eiddo (PFR) yn gymwys o dan y rhaglen gyfalaf a thrwy'r Grant Gwaith Graddfa Fach i awdurdodau lleol. Mae Llywodraeth Cymru yn annog pob Awdurdod Rheoli Risg i ystyried mesurau PFR, gan gynnwys fel mesur interim, lle maent yn cael eu hystyried yn opsiwn priodol ar gyfer lleihau perygl llifogydd.

Awdurdodau Rheoli Risg sy'n penderfynu ar briodoldeb y defnydd o PFR a gallant gyflwyno cais am gyllid, gan mai nhw sydd yn y sefyllfa orau i sicrhau adolygiad cydlynus o'r gymuned sydd mewn perygl o lifogydd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu nifer o'r cynlluniau hyn ledled Cymru, megis yr £1.7 miliwn sydd ar gael i awdurdodau lleol ar gyfer PFR yn dilyn Stormydd mis Chwefror 2020. Roedd hyn yn cynnwys prosiectau yn Rhondda Cynon Taf, Caerffili, Sir Fynwy a Phowys, yr amcangyfrifir eu bod wedi bod o fudd i hyd at 594 o gartrefi.

Bydd Llywodraeth Cymru a'n Hawdurdodau Rheoli Risg bob amser yn gweithio gyda chymunedau lleol i nodi'r cyfuniad gorau o fesurau i fynd i'r afael â'r bygythiadau penodol ym mhob ardal.

**Goblygiadau ariannol**: Amherthnasol

## Argymhelliad 16

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai Ysgrifennydd y Cabinet adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar sut, yn ei farn ef, y gellir hyrwyddo cynlluniau yswiriant presennol fel Flood Re yn well i breswylwyr ardaloedd sy'n wynebu risg uchel o ddioddef llifogydd yng Nghymru.

**Ymateb**: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid ehangach i annog Awdurdodau Rheoli Risg a'r diwydiant yswiriant i ymgysylltu â chymunedau ac unigolion i godi ymwybyddiaeth o yswiriant llifogydd.

Rydym yn cydnabod bod angen i berchnogion tai ddeall beth mae yswiriant llifogydd yn ei gwmpasu, gan nad yw polisïau yswiriant cartref safonol yn aml yn cynnwys difrod llifogydd. Rydym yn hyrwyddo cyfathrebu cliriach am y cynllun Flood Re, sy'n helpu i wneud yswiriant llifogydd yn fwy fforddiadwy i eiddo sy'n wynebu perygl uchel o lifogydd.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi menter 'Ailgodi'n Gryfach' Flood Re ac mae'n hyrwyddo mwy o ymwybyddiaeth o sut y gall yswirwyr sy'n cymryd rhan gynnig hyd at £10,000 tuag at fesurau gwydnwch llifogydd eiddo wrth atgyweirio cartrefi ar ôl llifogydd.

Mae CNC yn hyrwyddo'r negeseuon hyn trwy arwyddion ar ei wefan, sy'n cynnwys gwybodaeth am 'Ailgodi'n Gryfach', a thrwy ei lyfrynnau papur. Mae'r rhain yn cael eu dosbarthu trwy arweinwyr cymunedol, partneriaid fel awdurdodau lleol, cynghorau tref a chymuned ac elusennau, yn ogystal â cheisiadau uniongyrchol i'r CNC gan y cyhoedd.

Goblygiadau ariannol: Dim

## Argymhelliad 17

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai Ysgrifennydd y Cabinet gymryd camau i sicrhau bod cymorth iechyd meddwl yn cael ei integreiddio i strategaethau lleol ar gyfer ymateb i lifogydd ac adfer o lifogydd.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydym yn cydnabod yr effaith negyddol sylweddol y gall llifogydd ei chael ar iechyd meddwl pobl. Gall unigolion y mae llifogydd wedi effeithio ar eu hiechyd meddwl gael mynediad at ystod eang o gymorth ar gyfer eu hiechyd meddwl, heb yr angen am atgyfeiriad ffurfiol.

Mae'r llinell gymorth CALL (0800 132 737) yn darparu cymorth emosiynol a gwybodaeth am iechyd meddwl a materion cysylltiedig i unrhyw un yng Nghymru, drwy'r dydd, bob dydd. Mae gan bob bwrdd iechyd yng Nghymru dudalen bwrpasol sy'n rhoi manylion cymorth iechyd meddwl sydd ar gael yn ei ardal leol – mae hyn yn cynnwys cymorth sy'n hawdd cael gafael arno a gwasanaethau therapi ymddygiad gwybyddol ar-lein nad oes angen atgyfeiriad gan feddyg teulu ar eu cyfer.

Mae'r gwasanaeth GIG 111, Pwyso 2 ar gael i unrhyw un sydd ag angen iechyd meddwl brys – mae'n sicrhau y gall y rhai sydd angen cymorth brys gael eu rhoi mewn cysylltiad uniongyrchol â gweithiwr iechyd meddwl proffesiynol pan fydd ei angen arnynt fwyaf. Os yw plant a phobl ifanc wedi'u heffeithio, gallant gael mynediad at gymorth gan y gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion yn eu hardal.

Gall pobl sy'n dioddef problemau iechyd meddwl ysgafn i gymedrol, neu sefydlog, difrifol neu barhaus, gael eu hatgyfeirio i'w gwasanaeth cymorth iechyd meddwl gofal sylfaenol lleol gan eu meddyg teulu.

Mae gwefan a chyngor copi caled CNC hefyd yn cyfeirio at gymorth iechyd meddwl (Mind, CALL, Meic, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Samariaid), ac mae'n sicrhau bod sefydliadau sy'n cynnig y gwasanaethau hyn yn cael eu gwahodd i

ddigwyddiadau rhwydwaith gwirfoddolwyr cymunedol mewn perthynas â llifogydd y mae CNC yn eu hwyluso.

Goblygiadau ariannol: Dim

## Argymhelliad 18

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod canllawiau cenedlaethol ar gyfrifoldebau glannau afonydd, gan gynnwys ar gyfer cwlfertau a ffosydd, yn cael eu diweddaru a'u hyrwyddo. Dylai'r canllawiau gael eu hategu gan offer mapio, cofrestr o berchnogion, a chymorth ar gydymffurfio i dirfeddianwyr.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Dim ond pwerau caniataol sydd gan Awdurdodau Rheoli Risg mewn perthynas â rheoli llifogydd. Nid oes ganddynt bwerau i ymyrryd pan fydd erydiad afon yn digwydd - cyfrifoldeb tirfeddiannwr glannau afonydd yw hyn.

Mae egwyddorion perchnogaeth glannau afonydd wedi'u sefydlu mewn cyfraith gyffredin ers dros 200 mlynedd, ond mae trafodaethau diweddar ynghylch rheoli perygl llifogydd yn y Senedd yn awgrymu nad yw llawer o dirfeddianwyr yn ymwybodol o'r cysyniad.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi cynhyrchu **cyfarwyddyd** sy'n esbonio i dirfeddianwyr sut mae gwaith perchnogaeth glannau afonydd yn gweithio, a sut y gallai effeithio arnyn nhw. Mae hefyd yn cynnal canllawiau cyfredol ar wefan CNC yn **Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyfrifoldeb am afonydd, ffrydiau, cwlfertau a chamlesi**..

Goblygiadau ariannol: Dim

## Argymhelliad 19

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai Ysgrifennydd y Cabinet adolygu'r Cynllun Cymorth Ariannol Brys (EFAS) i sicrhau bod trothwyon y cynllun yn adlewyrchu capasiti ariannol awdurdodau lleol i ymateb i ddigwyddiadau tywydd garw sy'n codi dro ar ôl tro.

Ymateb: Derbyn

Mae'r trothwyon cyfredol yn 0.2% o wariant refeniw cyffredinol mewn unrhyw flwyddyn, felly maent yn cael eu cynyddu bob blwyddyn yn unol â'r gwariant cyffredinol a ragwelir. Disgwylir bod gan Awdurdodau Lleol gronfeydd wrth gefn

i ddelio â digwyddiadau annisgwyl, sy'n cynnwys digwyddiadau tywydd garw. Dylid ystyried y defnydd o'r cynllun EFAS ochr yn ochr â'r cyllid ataliol sydd ar gael ar gyfer digwyddiadau tywydd garw, yn bennaf trwy grantiau atal llifogydd. Mae effeithiau posibl newid hinsawdd yn cael eu cydnabod yn dda, ac mae awdurdodau lleol yn datblygu cynlluniau addasu i nodi risgiau a mesurau lliniaru dros y tymor canolig. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gefnogi gan gyllid Llywodraeth Cymru i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

**Goblygiadau ariannol**: Byddai'r goblygiad ariannol pe bai'r trothwy yn cael ei newid yn dibynnu ar y newid i'r trothwyon, i fyny neu i lawr, a math o ddigwyddiad a maint y digwyddiad mewn unrhyw flwyddyn benodol.

## Argymhelliad 20

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ystyried a yw strategaeth 10 mlynedd, fel y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Llifogydd ac Erydu Arfordirol, yn ddigonol i sicrhau cynllunio a buddsoddi hirdymor gwell.

**Ymateb**: Derbyn

Mae'r Strategaeth Genedlaethol bresennol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol wedi'i nodi o dan delerau Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Mae'r mesurau yn y Strategaeth wedi'u cynllunio i gael eu cyflawni dros y degawd o 2020, ond fe'i drafftiwyd gyda golwg tymor hwy cynhenid oherwydd bygythiad newid hinsawdd a'i effaith ar berygl llifogydd ac erydu arfordirol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau â'r dull strategol hwn wrth ddrafftio'r drydedd Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Bydd yn cyd-fynd â chynlluniau perthnasol eraill megis y rhai ar gyfer rheoli traethlin, seilwaith a chynllunio, a bydd yn uno ein hymatebion i adroddiadau diweddar gan gynrychiolwyr y sector, i roi cynllun hirdymor clir ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru.

**Goblygiadau ariannol**: Dim

## Argymhellion 21 a 22

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi diweddariad ar weithredu argymhellion adolygiad Adran 19, a arweiniwyd gan Elwen Evans CB.

A

Dylai Ysgrifennydd y Cabinet adolygu proses ymchwilio i lifogydd Adran 19 i sicrhau ei bod yn cefnogi cynllunio gwydnwch lleol yn well.

**Ymateb**: Derbyn

Ym mis Awst 2023, cyhoeddwyd yr adolygiad annibynnol o adroddiadau Adran 19 llywodraeth leol a Cyfoeth Naturiol Cymru ar lifogydd eithafol yng ngaeaf 2020, gyda Datganiad Llafar yn dilyn ym mis Medi 2023. Roedd hwn yn ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu sydd wedi'i gwblhau.

Mae'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol (FCEC) wedi sefydlu gweithgor Adran 19 ac yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a phartneriaid Awdurdodau Lleol i ystyried canfyddiadau'r adolygiad. Mae'r is-grŵp yn cynnal ymgynghoriad yr hydref hwn i nodi gofynion lefel uchel i ddatblygu canllawiau ategol ar gyfer adroddiadau ymchwilio i lifogydd Adran 19, gyda'r nod o ddrafftio templed safonol a fydd yn symleiddio'r broses ymchwilio ac yn fwy hygyrch i'r cyhoedd.

**Goblygiadau ariannol**: Dim

## Argymhelliad 23

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu'r map ffordd cynllunio dalgylchoedd, gan gynnwys amserlenni a chyfranogiad rhanddeiliaid.

**Ymateb**: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd cynllunio dalgylchoedd yn integredig fel offeryn allweddol wrth adeiladu gwydnwch i lifogydd ac erydu arfordirol, yn enwedig yng ngoleuni amlder a difrifoldeb cynyddol digwyddiadau storm fel Stormydd Bert a Darragh.

Fel y gwnaethom ymrwymo iddo yn ein hymateb i adroddiad NICW, *Meithrin y Gallu i Wrthsefyll Llifogydd yng Nghymru erbyn 2050*, mae'r gwaith ar fap ffordd i gynllunio dalgylchoedd yn mynd rhagddo, gyda'r nod o ddarparu fframwaith

strategol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac adnoddau dŵr ar raddfa dalgylch. Bydd swyddogion yn cynnwys rhanddeiliaid wrth i'r polisi gael ei ddatblygu.

Goblygiadau ariannol: Dim

## Argymhelliad 24

Mae'r Pwyllgor yn argymell

O ystyried eu heffaith bosibl, dylai Ysgrifennydd y Cabinet flaenoriaethu'r gwaith o ehangu atebion sy'n seiliedig ar natur, a sicrhau bod lefelau priodol o gyllid ar gael at y diben hwnnw. Dylid rhoi cymorth i ffermwyr a thirfeddianwyr ddeall eu cyfrifoldebau a'r cyfleoedd yn y maes polisi hwn.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymwreiddio dulliau sy'n seiliedig ar ddalgylch o fewn fframweithiau cynllunio defnydd tir ehangach i sicrhau ymateb cyfannol a chynaliadwy i berygl llifogydd ac erydu arfordirol.

Bydd y dull hwn yn helpu i sicrhau bod penderfyniadau defnydd tir yn cyfrannu'n gadarnhaol at wydnwch llifogydd, ansawdd dŵr, bioamrywiaeth a llesiant cymunedol.

Mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo Rheoli Llifogydd yn Naturiol ac yn cefnogi Awdurdodau Rheoli Risg i weithio ar y cyd â thirfeddianwyr a ffermwyr i fynd ar drywydd atebion sy'n seiliedig ar natur i leihau perygl llifogydd ac i ddiogelu a gwella ein hamgylchedd naturiol.

Er mwyn cryfhau Rheoli Llifogydd yn Naturiol ymhellach, rydym wedi sicrhau bod £2 filiwn ar gael i gefnogi prosiectau ledled Cymru yn 2025-26, gyda'r nod o wella'r amgylchedd naturiol a lleihau perygl llifogydd i eiddo.

Mae swyddogion hefyd yn gweithio ar y cyd â phartneriaid i sicrhau bod ffermwyr yn cael eu cefnogi i ddeall cyfleoedd rheoli llifogydd yn naturiol ar eu tir trwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ac yn cael eu cymell i gymryd y camau cadarnhaol hynny.

Goblygiadau ariannol: Dim goblygiadau ariannol ychwanegol

## Argymhelliad 25

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi diweddariad ar y camau sy’n cael eu cymryd i ehangu’r defnydd o atebion sy’n seiliedig ar natur, gan gynnwys manylion sut y mae’r rhain yn cael eu hymgorffori mewn fframweithiau polisi a sicrwydd y bydd y cynlluniau hyn yn parhau i gael eu hariannu y tu hwnt i 2025-26.

**Ymateb**: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod atebion sy'n seiliedig ar natur yn cael eu hystyried yn effeithiol i sicrhau gwydnwch hirdymor i lifogydd ac erydu arfordirol.

Mae'r Gronfa Rheoli Llifogydd yn Naturiol (NFM) yn fecanwaith allweddol ar gyfer darparu adnoddau ar gyfer atebion sy'n seiliedig ar natur. Mae'r gronfa yn cefnogi prosiectau sy'n lleihau perygl llifogydd wrth gyflawni manteision amgylcheddol ehangach fel gwella bioamrywiaeth, atafaelu carbon a gwell ansawdd dŵr. Mae'r ffenestr Mynegi Diddordeb ar gyfer Cronfa NFM 2026-7 ar agor ar hyn o bryd.

Mae canllawiau achos busnes y Strategaeth Rheoli Risg Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (FCERM), a ryddhawyd yn 2018, yn annog dulliau NFM lle bo'n briodol fel rhan o'r broses arfarnu opsiynau pan fydd Awdurdodau Rheoli Risg yn gwneud cais am gyllid y cynllun rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Mae'r canllawiau hefyd yn sicrhau bod gwerthusiadau’n casglu tystiolaeth o'r manteision ehangach sy'n gysylltiedig â chynllun penodol, megis buddion amwynder, adfywio, cymunedol a bioamrywiaeth.

**Goblygiadau ariannol**: Dim goblygiadau ariannol ychwanegol